

# Map Rhwydwaith Teithio Llesol

# Active Travel Network Map

Powys

Annwyl Cynghorau Tref a Chymuned

Hoffwn eich hysbysu bod ymarfer ymgysylltu, i nodi meysydd gwelliant o ran llwybrau teithio llesol ym Mhowys yn y dyfodol, wedi dechrau.

Bydd yr ymgysylltiad hwn yn rhedeg am 12 wythnos ac yn rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid adolygu a diwygio llwybrau teithio llesol a nodwyd yn flaenorol yn yr 11 tref ddynodedig; Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Crug Hywel, Tref-y-clawdd, Llandrindod, Llanidloes, Machynlleth, y Drenewydd, Llanandras, Y Trallwng ac Ystradgynlais (aneddiadau â phoblogaeth o dros 2000, fel y nodwyd gan y Gweinidog yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013).

Rydym yn ceisio barn unrhyw un sydd naill ai'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â'n trefi, gan gynnwys grwpiau cymunedol, ysgolion, teuluoedd ac unigolion. Drwy nodi gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol neu rai newydd, byddwn yn gallu creu Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft newydd.

Byddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth, a byddem yn croesawu eich cymorth i roi cyhoeddusrwydd i'r fenter yn eich cymuned leol, er mwyn helpu i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl.

Unwaith y bydd yr holl awgrymiadau wedi'u nodi a'u dadansoddi, bydd Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft newydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus terfynol y flwyddyn nesaf.
I gael gwybod mwy am gynlluniau teithio llesol y cyngor ac i roi gwybod i ni am eich syniadau ar wella llwybrau teithio llesol yn eich ardal, ewch i: Dweud Eich Dweud: Helpwch i Lunio Rhwydwaith y Teithio Llesol ym Mhowys | DataMapCymru

**Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw lwybr a nodir ar yr ATNM yn gwarantu y bydd cyllid yn cael ei dderbyn ac y bydd y llwybrau'n cael eu hadeiladu.**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch yr ymgysylltiad hwn â rhanddeiliaid, neu'r Ddeddf Teithio Llesol, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm teithio llesol - gweithredol@powys.gov.uk

Yn gywir

Dear Town and Community Councils

I would like to inform you that an engagement exercise, to identify areas of improvement to future active travel routes within Powys, has begun.

This engagement will run for 12-weeks and provides the opportunity for all stakeholders, to review and amend previously identified active travel routes within the 11 designated towns; Brecon, Builth Wells, Crickhowell, Knighton, Llandrindod Wells, Llanidloes, Machynlleth, Newtown, Presteigne, Welshpool and Ystradgynlais (settlements with a population of over 2000, as identified by the Minister in the Active Travel (Wales) Act 2013).

We are seeking the views of anyone who either lives, works or visits our towns, including community groups, schools, families and individuals. By identifying improvements to existing or new active travel routes, we will be able to create a new draft Active Travel Network Map (ATNM).

We will be utilising social media to raise awareness, and we would welcome your assistance with publicising the initiative in your local community, to help maximise participation.

Once all the suggestions have been identified and analysed, a new draft Active Travel Network Map will be made available for final public consultation next year. To find out more about the council's active travel plans and to let us know your ideas on improving active travel routes in your area, please visit: Have Your Say: Help Shape the Active Travel Network in Powys | DataMapWales

**It is important to note that any route identified on the ATNM in no way guarantees funding will be received and the routes will be built.**

Should you have any queries or comments regarding this stakeholder engagement, or the Active Travel Act, please do not hesitate to contact the active travel team - active@powys.gov.uk

Yours faithfully

**Vincent Goodwin**
Travel Officer, Powys County Council